❖ 'Wele Cawsom y Meseia'

O orfod dewis hoff emyn Nadolig, dyma droi at waith Dafydd Jones o Gaeo. Cofiaf glywed amdano am y tro cyntaf pan oeddwn yn hogyn yn fy arddegau yn nosbarth Ysgol Sul y diweddar William Jones yng nghapel Maes y Neuadd, Trefor. Cofiaf yr athro yn adrodd gydag afiaith yr hanes rhamantus am Dafydd Jones yn troi i mewn i oedfa yng nghapel Troed Rhiw Dalar ar y ffordd adref o un o'i deithiau porthmona ac yn cael tröedigaeth o dan weinidogaeth y sawl a bregethai yno.

A'r emyn o'i waith yw 'Wele cawsom y Meseia'. Pob clod i olygyddion *Caneuon Ffydd* am gynnwys pennill arall (nad oedd yn y *Caniedydd*) sef 'Hwn yw'r Oen ar ben Calfaria'. Cawn wybod pwy yw Iesu Grist – 'gwir Fab Duw'; beth wnaeth O – 'aeth i'r lladdfa yn ein lle'; 'prynu'n bywyd, talu'n dyled, a'n glanhau â'i waed ei hun'; a beth y dylem ni ei wneud – 'dewch, llawenhewch, diolchwch iddo, byth na thewch'. Yn y nodweddion hyn, yn ôl Delyth Morgans yn *Cydymaith Caneuon Ffydd*, mae'n debyg i'r carolau plygain: yn cwmpasu genedigaeth a marwolaeth Crist ac yn cymhwyso'i weinidogaeth i'r ddynoliaeth.

Adeg y Nadolig, mor aml y clywir y sylw mai rhywbeth i blant neu i deuluoedd yw'r ŵyl. Digon gwir, ond nid iddynt hwy yn unig ond yn hytrach i bawb. Mae Iesu Grist yn 'Ffrind a Phrynwr dynol-ryw'. Newyddion da o lawenydd mawr i'r **holl** bobl yw dyfodiad Iesu Grist – a ninnau yn eu plith!

Dafydd O. Roberts